| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **21 IONAWR 2016** |
| **TEITL** | **TREFNIADAU CRAFFU'R CYNGOR** |
| **AWDUR** | **Arwel E Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cynnal trafodaeth ar raglen waith mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru** |

1. Adroddais i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr, 2015, ein bod wedi derbyn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn adolygu effeithlonrwydd craffu yng Ngwynedd. Fel rhan o'r gwaith hynny, fe awgrymwyd tri prif faes y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwella craffu yng Ngwynedd, sef:-

    - Delio â'r diffyg cyswllt sydd yn ymddangos rhwng gwaith y Cabinet a'r pwyllgorau craffu trwy edrych, ymysg pethau eraill, ar fwy o graffu cyn penderfyniad ar waith y Cabinet
    - Gwella ar eglurder argymhellion craffu fel bod modd adnabod yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i graffu yn haws
    - Gwella ansawdd cwestiynu mewn pwyllgorau craffu er mwyn cynnig mwy o ffocws ac ansawdd i'r craffu

2. Bellach, derbyniwyd fersiwn derfynol yr adroddiad y mae copi ohonno ynghlwm fel Atodiad 1. Mae'r adroddiad yn cynnwys 9 o argymhellion y mae angen ymateb iddynt. Yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn, nodir yr argymhellion gyda rhai ystyriaethau i'r Pwyllgor ei ystyried wrth lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion hynny.

3. Gwahoddir ymateb cychwynol y pwyllgor i'r ystyriaethau hynny a ceisir arweiniad ar addasrwydd y pwyntiau gweithredu drafft sydd yn y ddogfen sydd ynghlwm.